**Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 26 Gorffennaf 2002**

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Daliadau Uniongyrchol i Ofalwyr. (WAQ19308)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y polisi Taliadau Uniongyrchol i Ofalwyr yng Nghymru, o'i gymharu â'r polisi yn Lloegr. (WAQ19307)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canllawiau a roddir i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol wrth asesu'r meini prawf ar gyfer taliadau uniongyrchol. (WAQ19306)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y gweithredir Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru o gymharu â Lloegr. (WAQ19305)

**Alison Halford (Delyn);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y gall defnyddwyr Cardiau Rhoddwr ddewis bod eu horganau yn mynd i berthynas fel dewis cyntaf os ydynt angen trawsblaniad. (WAQ19316)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i leihau faint o gysylltiad a gaiff y cyhoedd gyda ysmygu yng ngogledd Cymru. (WAQ19317)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r ffaith bod arolwg diweddar o amser ymateb Ambiwlans yng Nghymru y gwaethaf yn y DU. (WAQ19318)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gynyddu y nifer o ddeintyddion y GIG sydd yn Nelyn. (WAQ19319)

**Alison Halford (Delyn);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y gall defnyddwyr Cardiau Rhoddwr ddewis bod eu horganau yn mynd i berthynas fel dewis cyntaf os ydynt angen trawsblaniad. (WAQ19320)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Sawl swydd radiotherapydd sydd yn wag ym mhob un o'r pum awdurdod iechyd. (WAQ19326)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa ganllawiau clinigol sydd ar waith o ran yr amserlen i roi triniaeth radiotherapi yn sgil tynnu lwmpyn o'r fron. (WAQ19327)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o bobl sy'n aros am driniaeth radiotherapi ar hyn o bryd. (WAQ19328)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i beri i'r rhestrau aros am radiotherapi leihau. (WAQ19329)

Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

**Alison Halford (Delyn);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i hyrwyddo'r cynnydd yng nghyflogau merched 'heb sgiliau' sy'n gweithio. (WAQ19309)

**Alison Halford (Delyn);** Pryd fydd y buddsoddiad o £100 miliwn mewn band eang yn golygu y bydd cynnydd sylweddol yn y nifer all ddefnyddio'r rhyngrwyd yng ngogledd Cymru. (WAQ19310)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Gwledig

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Mewn perthynas â chofnodion y Cabinet dyddiedig 20 Mai 2002, a'i ateb i'm cwestiwn ysgrifenedig WAQ129262, a wnaiff ddatganiad yn nodi pa bryd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'i safbwyntiau ar hela â chn (Cofnod 9.1 yn cyfeirio at hyn). (WAQ19311)

**Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**Pa arweiniad sydd yn cael ei gynnig i ffermwyr pan maent yn delio ag anifeiliaid sydd wedi trigo ar eu ffermydd. (WAQ19315) **W**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Mewn perthynas â chofnodion y Cabinet dyddiedig 20 Mai (Cofnod 9.2), a wnaiff hi ddatganiad am y mater o werthu caeau chwarae yng Nghymru. (WAQ19312)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** I wneud datganiad am gaeau chwarae "The Grange" yn sir Benfro. (WAQ19313)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt y gwaith i gynyddu'r ddarpariaeth o gamerâu teledu cylch cyfyng (CCTV) a diogelwch o gwmpas mosgiau a sefydliadau tebyg yng Nghymru. (WAQ19314)

**Alison Halford (Delyn);**A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw reswm posib sydd y tu cefn i'r lleihad o 28.9% mewn gwariant cyfalaf dros dro yr awdurdod lleol yn Sir y Fflint o'i gymharu â'r cynnydd o 80.6% yn Abertawe. (WAQ19321)

**Alison Halford (Delyn);** Pa lwyddiannau a gafwyd gyda'r 'asesiad o anghenion tai'. (WAQ19322)

**Alison Halford (Delyn);**A wnaiff y Gweinidog argymell bod awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn dilyn arweiniad Cyngor Sir y Fflint i wahanu rôl Ysgrifennydd y Sir oddi wrth y Swyddog Monitro. (WAQ19323)

**Alison Halford (Delyn);**Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch y Mesur i Ddiwygio'r Heddlu. (WAQ19324)

**Alison Halford (Delyn);**Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Heddlu yng Nghymru ynghylch y Mesur i Ddiwygio'r Heddlu. (WAQ19325)